Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 27ain Mai 2014

Presennol: A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, J. Roberts, G. Parry, A. Thomas, H. Huws, Mervyn Jones, Meirion Jones, P. Roberts, G.C. Jones.

1. Ymddiheuriadau: B. Jones, A. Williams , D. Williams.
Cynghorydd Sirol J. Evans

Croesawyd Dafydd Owen, y Clerc newydd i'w gyfarfod cyntaf.
Datganodd A. Mummery ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth dros y cyfnod fu'n Gadeirydd y Cyngor Bro. Diolchodd yn arbennig i J. Roberts am arwain y Cyngor bro drwy gyfnod anodd o 2009 i 2011.

2. Datganiadau Diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd
Cynigwyd gan J. Roberts fod A. Jones yr Is Gadeirydd yn cymryd y Gadair, eiliwyd gan G. Parry a chytunwyd yn unfrydol.
Derbyniodd A. Jones y swydd a diolchodd i A. Mummery ac i Anwen , y cyn Clerc am eu cefnogaeth tra bu'n Is Gadeirydd.
Cynigwyd B. Jones yn Is Gadeirydd gan A. Mummery, eilwyd gan M. Jones. Cytunwyd yn unfrydol yn ei absenoldeb.

4. Materion y Cyngor Sir
4.1 Nodwyd bod y Cynghorydd J. Evans wedi'i ethol yn Is Gadeirydd y Cyngor Sir. Llongyfarchwyd y cynghorydd yn ei absenoldeb.
4.2 A. Mummery wedi derbyn gohebiaeth gan Jones Peckover, Asiant Stad Plas Newydd fod Twr Marcwis wedi'i gau i'r cyhoedd oherwydd cyflwr yr adeilad. Hefyd nid oes neb yn byw yn nhŷ'r golofn ar hyn o bryd.
4.3 Nodwyd bod y Cyngor Sir am we ddarlledu cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor Cynllunio a'r Cyngor llawn.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion 29 Ebrill 2014
Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

6. Materion yn codi o'r cofnodion
6.1 Modurdy ger Plas Mona/Plas Garnedd - nodwyd bod ymchwiliad ar y gweill gan Adran Cynllunio'r Cyngor Sir ar ddefnydd anghyfreithlon o'r safle.
6.2 Safle we'r Cyngor Bro - y gwaith o greu safle newydd ar y gweill gan Menter Môn. Nodwyd bod angen lluniau newydd arno'n dangos y gwaith sydd wedi'i wneud yn ddiweddar.
6.3 Adroddwyd fod y blodau gwyllt ger y toiledau yn dechrau tyfu.
6.4 Wast niwclear - H. Huws yn adrodd nad oes llawer o bobl yn ymwybodol o'r cyfarfod sydd wedi'i drefnu yng Ngwesty Treysgawen ym mis Medi.
6.5 Llecyn Coed y Feddygfa - dim gwybodaeth bellach am gyfarfod gyda swyddog o'r Bwrdd Iechyd.
6.6 Maes Parcio'r Gors - R.G, Hire heb fod i edrych arno eto.
6.7 Baneri - Anwen Le Cras i ddilyn i fyny ar y caniatâd sydd angen.
6.8 Gwaith Paentio - C. Roberts wedi cychwyn ar y gwaith.
6.9 Cais Cynllunio Cae Cyd - nodwyd mai datblygwr safle Llys eilian sy'n gyfrifol am wneud gwelliannau i'r groesffordd.

7. Cofnodion Pwyllgor Y Fynwent 13 Mai 2014
Cynigwyd gan G. Parry ac eiliwyd gan J. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

8. Materion yn codi o'r cofnodion
8.1 Y Clerc i ysgrifennu at ddau deulu i'w hysbysebu fod cerrig beddau mewn cyflwr peryglus.

9. Cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae
Cynigwyd gan A. Jones ac eilwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

10. Materion yn codi o'r cofnodion
10.1 J. Roberts yn mynegi pryder am gostau cynnal a chadw ac yswiriant ar yr offer newydd sydd yn cael eu gosod gan Ffrindiau Parc y Gors. Trafodwyd y mater a chytunwyd for y Cyngor Bro'n gefnogol o unrhyw bwyllgor sy'n fodlon gweithredu ar y pentref. Cadw golwg ar y costau i'r dyfodol.
10.2 Golau tu allan y pafiliwn wedi'i dorri - gofyn i Gavin Roberts edrych arno.

11. Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa
Nodwyd nad yw H. Huws yn aelod o'r pwyllgor yma.
Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan P. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

12. Materion yn codi o'r cofnodion
Dim materion yn codi

13. Cofnodion Pwyllgor Cyllid
Cynigwyd gan A. Mummery ac eilwyd gan M. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

14. Materion yn codi o'r cofnodion
14.1 Y Cyngor i drafod adroddiad cwmni VAT Capital yng nghyfarfod mis Mehefin.

15. Ceisiadau Cynllunio
31C14V/1 Cais 34 Cil y Graig i addasu ac ehangu - dim sylw

16. Cyfrifon mis Mai 2014
Cyflwynwyd taenlen a rhestr taliadau mis Mail 2014.
Nodwyd bod ffi o £25.00 wedi'i godi gan y Banc ar gyfrif y Neuadd Goffa oherwydd diffyg arian i dalu debyd uniongyrchol. A. Le Cras i ysgrifennu at y banc i ofyn iddynt ostwng y ffi.
Cynigwyd gan J. Roberts, eilwyd gan A. Mummery. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

17. Gohebiaeth
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

18. Unrhyw Fater Arall
18.1 H. Huws wedi mynychu hyfforddiant cydraddoldeb yn ddiweddar. Cytunwyd bod angen creu polisi cydraddoldeb.
18.2 Nodwyd bod oglau carthffosiaeth ar lannau'r Fenai ger Eglwys Santes Fair. Y Clerc i ysgrifennu at Dwr Cymru ac Adnoddau Cymru i'w hysbysebu.
18.3 Gofyn i'r Cyngor Sir os oes bwriad ganddynt i osod plac ar hen dy Kyffin Williams yn Pwllfanogl.
18.4 Llwybr beicio - y gwaith paentio yn dal heb ei wneud. Y Clerc i gysylltu â Jenny Clarke yn y Cyngor Sir i ofyn am amserlen.
18.5 Mrs Eleanor Imhoff wedi cysylltu â. G.Parry ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal arddangosfa o lythyrau a medalau o'r Rhyfel Byd Cyntaf yn y Neuadd Goffa.
18.6 Llwybr troed Lon Hedydd angen ei dorri. Y tirmon i weithredu.
18.7 Cynghorau Tref a Chymuned yn 40 oed eleni. Sefydlwyd y Cynghorau ym 1974 yn lle'r hen Gynghorau Plwyf.

Dyddiad cyfarfod nesaf
Cyfarfod Blynyddol - Nos Fawrth 24ain Mehefin 2014 am 7.00 yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd …… (Cadeirydd) ……Dyddiad